
# Gweddi yn y Parc

Canllaw Gweddi



tearfund



**Gadewch i ni gydweddïo dros y cread, ein hinsawdd, ein cymdogion byd-eang ac arweinwyr y byd. Mae 2021 yn flwyddyn i weithredu dros yr amgylchedd, gyda gwleidyddion yn cyfarfod i addunedu i ostwng allyriadau carbon ac i helpu i arafu newid yn yr hinsawdd. Ym mis Mehefin, bydd yr G7 yng Nghernyw yn canolbwyntio ar sicrhau bod rhai o'r prif wledydd democrataidd yn helpu'r byd i ailgodi'n gryfach ar ôl pandemig y coronafeirws ac i greu dyfodol gwyrddach a mwy llewyrchus. Yna, ym mis Tachwedd, daw cynrychiolwyr y Cenhedloedd Unedig ynghyd yn Glasgow ar gyfer COP26 i fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd.**

Gallwch ddefnyddio'r canllaw gweddi hwn mewn llecyn glas yn eich ardal, ar eich pen eich hunan, gyda'ch teulu neu mewn grŵp. Gobeithio y bydd y syniadau a'r storïau ynddo yn eich helpu i ddod yn nes at Dduw ac i ymbil dros bobl y mae'r argyfwng hinsawdd yn effeithio arnynt.

**Gadewch i ni baratoi ein calonnau:**

> **'Blant annwyl, peidiwch dim ond siarad am gariad, gwnewch rywbeth i ddangos eich cariad!'**
>
> **1 Ioan 3:18**
>
> Amen.



## Gweddi o alar

Mae newid yn yr hinsawdd yn cael effaith anghyfartal ar ein byd a'n cymdogion. Y rhai sy'n cyfrannu leiaf ato sy'n dioddef gyntaf a waethaf. I deuluoedd fel teulu Orbisa, mae bywyd bob-dydd yn ymdrech fawr. Mae Orbisa'n byw gyda'i gŵr a naw o blant yn Afar, gogledd-ddwyrain Ethiopia – un o'r lleoedd poethaf y mae pobl yn byw ynddo yn y byd.

Dros y blynyddoedd diwethaf, mae'r rhanbarth wedi cael llawer llai o law nag arfer oherwydd newid yn yr hinsawdd. Dywed Orbisa, 'Yn y gorffennol, roedden ni'n cael cyfnod o law bob chwe mis, ond nawr dydyn ni ddim yn gwybod pryd y daw'r glaw. Mae'r tymor sych yn mynd yn hirach.' Heb law, mae ei hanifeiliaid yn marw, sy'n golygu llai o incwm, llai o fwyd ac iechyd gwael i'r teulu. Erbyn hyn, mae'n rhaid i Orbisa deithio am oriau lawer bob dydd i nôl dŵr, ond mae ei phlant yn dal yn sychedig.

Dyna sut beth yw'r argyfwng hinsawdd. Os na weithredwn ni ar frys nawr, bydd newid yn yr hinsawdd yn parhau i wthio miliynau yn fwy o bobl fel Orbisa yn ddyfnach i dlodi.

*Arglwydd Dduw, fe wnest ti greu'r byd a datgan ei fod yn 'dda iawn'. Ac eto, dydyn ni ddim wedi trin y ddaear na phobl eraill â'r gofal a'r parch y maen nhw'n ei haeddu. Mae'n ddrwg gennym a gofynnwn am dy faddeuant.*

*Rho'r dewrder inni barhau i godi ein lleisiau am yr argyfwng hinsawdd, sy'n effeithio waethaf ar bobl sy'n byw mewn tlodi. A rho Ysbryd heddwch yng nghalonnau pawb, fel bod gwrthdaro'n diweddu mewn heddwch, a pherthnasoedd rhwng pobl yn cael eu hadfer.*

*Amen.*



Llun: Chris Hoskins/Tearfund

tearfund



## Gweddi o ddiolch

Treuliwch ychydig amser yn diolch i Dduw, yn gwerthfawrogi harddwch byd natur o'ch cwmpas. Gallwch ddefnyddio'ch geiriau eich hunan neu'r weddi hon gan Anna Huws o Ffald y Brenin.

Ein Creawdwr Dduw,
Fe welwn dy gymeriad yn cael ei adlewyrchu wrth i ni edrych ar y mynyddoedd garw, y bryniau tonnog a'r traethau godidog.
Ti'n fawr
Ti'n hael
Ti'n gwneud popeth mor dda
Fe welwn dy gymeriad yn cael ei adlewyrchu wrth i ni edrych ar lafn o laswellt, amrywiaeth ddiddiwedd o flodau a choed, a sŵn y gog yn canu
Ti'n fawr
Ti'n hael
Ti'n gwneud popeth mor dda
Fel pinacl dy greadigaeth, boed i'n calonnau ni gynhesu o'r newydd tuag atat ti, ein Creawdwr.
Gad i'n llygaid weld trwy dy lygaid di, a boed i'n hagwedd fod fel Crist Iesu tuag at y byd o'n cwmpas

Amen

## Gweddi dros eich ardal

Trwy'r ysgrythur, gwelwn gariad Duw at y byd. 'Yr ARGLWYDD piau'r ddaear a phopeth sydd ynddi,' dywed y Salmydd (Salm 24:1). Ond gyda rhai o'r stormydd gwaethaf y gwyddom amdanynt, sychder difrifol a'r tymheredd yn codi, rydym yn gweld y cread yn colli ei gydbwysedd.

**Treuliwch ychydig amser yn crwydro o gwmpas y llecyn a ddewiswyd gennych gan feddwl sut y gallai newid yn yr hinsawdd effeithio ar eich ardal chi, a gweddïwch dros faterion lleol sy'n ymwneud â'r amgylchedd e.e.:**

- sbwriel a gwastraff yn yr amgylchedd
- llifogydd neu brinder dŵr
- prosiectau lleol ynni adnewyddadwy
- ardaloedd lle mae llawer o fathau o fywyd gwyllt ac mae angen eu gwarchod
- llecynnau glas sydd dan fygythiad oherwydd bwriad i'w datblygu.

**'Yr ARGLWYDD piau'r ddaear a phopeth sydd ynddi.'**

**Salm 24:1**

Amen.



tearfund



# Gweddi dros yr eglwys

Mae'n rhaid i ni, fel Cristnogion ac fel eglwys, roi ein ffydd ar waith dros gyfiawnder hinsawdd. Gadewch inni ystyried sut y gall yr eglwys ymateb i'r argyfwng hinsawdd. Gallwn ddilyn arweiniad y bobl ifanc a alwodd eleni ar i'r eglwys roi newid hinsawdd wrth galon y weinidogaeth. Dyma rai enghreifftiau o'r hyn a ddywedodd Cristnogion ifanc sy'n ymwneud â #WeAreTearfund

'Rydyn ni'n cael ein hysgogi gan ffydd. Rydyn ni'n clywed galwad Duw i ofalu am y greadigaeth ac yn gweld byd sydd wedi'i esgeuluso, byd sydd ar dân. Os nad ydyn ni, yr eglwys, yn malio digon i ddiffodd y fflamau, pwy arall wnaiff?'

'Rydyn ni mewn argyfwng hinsawdd.'

'Mae tywydd eithafol yn dinistrio bywoliaeth pobl, mae trychinebau naturiol yn gadael llawer heb le i'w alw'n gartref, ac mae pobl yn colli eu bywydau. Y rhai sy'n cyfrannu leiaf at y broblem sy'n dioddef fwyaf. Nid dim ond oherwydd y gallai effeithio arnon ni rhyw ddiwrnod yr ydyn ni'n poeni ond oherwydd ei fod eisoes yn effeithio ar filoedd o bobl ledled y byd a chyn bo hir byddwn yn pasio'r pwynt di-droi'n-ôl.'

'Os gorffwyswn ar ein rhwyfau a gwneud dim, bydd llawer mwy o bobl yn marw.'

'Mae gwneud dim yn golygu troi ein cefnau ar ein dyletswydd fel Cristnogion. Cawsom ein galw i garu ein cymydog ac mae'n ddyletswydd arnom i wneud hynny. Sut allwn ni honni ein bod yn caru Duw os nad ydym yn malio am ei greadigaeth? Sut allwn ni honni ein bod yn caru ein cymydog a ninnau'n llosgi ei dŷ?'

'Mae'n rhaid i ni yn yr eglwys ddangos ein cariad trwy weithredu ac nid mewn geiriau yn unig. Rhaid i ni wrando ar gri byd sydd dan fygythiad ac ymateb trwy ddangos cariad Iesu. Dyma gariad sy'n tarfu ar ein byd cysurus ac yn achosi anghyfleustra i ni er mwyn gwella'r sefyllfa. Dyma'n cyfrifoldeb ni. Dyma'n haddoliad.'

Treuliwch amser yn gweddïo y bydd yr eglwys leol a'r eglwys fyd-eang yn gwneud mwy i atal yr argyfwng hinsawdd.

tearfund



Llun: Chris Hoskins/Tearfund



## Gweddi dros y G7

Cydweddïwn dros arweinwyr byd yng nghynhadledd yr G7 wrth iddynt gydweithio i ganfod atebion a chymryd camau brys. Gallwch fyfyrio dros y darn isod o Rhufeiniaid 8 a'i gymryd fel galwad i weithredu ar gyfer arweinydd, cymuned neu wlad neilltuol sydd ar eich calon.

> **'Ydy, mae'r greadigaeth i gyd yn edrych ymlaen yn frwd at y dydd pan fydd Duw yn dangos pwy sy'n blant iddo go iawn. Roedd y greadigaeth wedi cael ei chondemnio i wagedd (dim ei dewis hi oedd hynny – cafodd ei orfodi arni). Ond mae gobaith i edrych ymlaen ato: mae'r greadigaeth hefyd yn mynd i gael ei gollwng yn rhydd! Fydd hi ddim yn gaeth i lygredd ddim mwy. Bydd yn rhannu'r rhyddid bendigedig fydd Duw'n ei roi i'w blant.'**
>
> **Rhufeiniaid 8:19–21**

**Defnyddiwch yr enghreifftiau hyn i'ch arwain wrth i chi barhau i weddïo:**

- Gweddïwch dros Brif Weinidog y Deyrnas Unedig, Boris Johnson, wrth iddo groesawu uwchgynhadledd yr G7, iddo gael y dewrder a'r argyhoeddiad i weithredu o blaid y gwirionedd.
- Gweddïwch yr un peth dros arweinwyr y gwledydd eraill fydd yn bresennol eleni: Canada, Ffrainc, yr Almaen, yr Eidal, Japan, UDA, Awstralia, India, De Corea a De Affrica.
- Gweddïwch y bydd y gwledydd hyn – sydd ymhlith y gwledydd cyfoethocaf a'r rhai sy'n achosi mwyaf o lygredd yn y byd – yn rhoi'r gorau i fuddsoddi biliynau o ddoleri mewn glo, olew a nwy.
- Gweddïwch y bydd y llywodraethau hyn yn rhoi amodau gwyrdd ar daliadau achub i gwmnïau awyrennau a cheir er mwyn helpu cwmnïau, gweithwyr a'r cymunedau yr effeithir arnynt i symud tuag at ddyfodol carbon isel.
- Gweddïwch y bydd llywodraethau, yn hytrach, yn ariannu llwybr adfer o gyfnod y coronafeirws sy'n arwain at ostyngiad mawr mewn allyriadau nwyon tŷ gwydr – gan fuddsoddi llawer mwy mewn ynni glân, a thrafnidiaeth a seilwaith trafnidiaeth gyhoeddus glanach.
- Gweddïwch y bydd llywodraethau yn hybu adferiad gwyrdd i bawb ac yn cydsefyll â gwledydd incwm isel a chanolig, er enghraifft trwy bleidio dileu dyledion a thrwy annog banciau datblygu amlochrog i sicrhau bod eu gweithgareddau'n cydymffurfio â Chytundeb Paris.



tearfund



# Gweddi dros COP26

Eleni, yn y cyfnod cyn COP26, hoffem weld blwyddyn yn llawn gweddïo angerddol dros gyfiawnder ac atebion i'r argyfwng hinsawdd. Mae pobl ym mhedwar ban byd yn ymbil am newid, yn dathlu harddwch byd Duw, yn edifarhau am y difrod rydyn ni wedi'i achosi ac yn ceisio calon Duw er mwyn cael dyfodol cyfiawn a chynaliadwy. Yn awr, treuliwch beth amser yn gweddïo dros arweinwyr byd a fydd yn dod i COP26.

**'O flaen popeth arall dw i'n pwyso arnoch chi i weddïo dros bawb – pledio a gweddïo'n daer; gofyn a diolch i Dduw ar eu rhan nhw. Dylech chi wneud hynny dros frenhinoedd a phawb arall mewn safle o awdurdod, ...'**

**1 Timotheus 2:1–2**

**Gweddïwch am ddoethineb i wledydd y mae newid hinsawdd yn effeithio arnynt i wybod sut i addasu mewn byd sy'n newid, a gweddïwch y bydd eu harweinwyr yn clywed cri y bobl fwyaf bregus. Dyma syniadau am wledydd i weddïo drostynt:**

- Malawi a Mozambique, a chwalwyd gan Seiclon Idai yn 2019
- India, sy'n dioddef cyfnodau o sychder difrifol a llifogydd eithafol yn amlach o hyd
- Ecwador, Fietnam ac ynysoedd sy'n colli tir yn gyflym am fod lefel y môr yn codi

**Gweddïwch y bydd y gwledydd sy'n gyfrifol am fwyaf o allyriadau yn uchelgeisiol yn eu haddunedau a'u gweithredoedd ac y byddant yn rhoi blaenoriaeth i gyfiawnder a chydraddoldeb. Dyma rai syniadau am wledydd i weddïo drostynt:**

- y Deyrnas Unedig, man geni'r Chwyldro Diwydiannol a'n byd carbon-ddwys ni
- Unol Daleithiau America, a fu'n gyfrifol am fwy o allyriadau na'r un wlad arall ers yr 1800au
- China, sy'n cynhyrchu mwy o allyriadau carbon na neb arall heddiw



tearfund




## Dewch â'r sesiwn i ben trwy Godi Llaw mewn Gobaith!

**Mae gweddi yn ganolog i'n hymateb i anghyfiawnder. Fffordd allweddol arall y gallwn ymateb yw codi llais dros newid. Ymunwch â ni heddiw i *Godi Llaw mewn Gobaith* a galw ar y Prif Weinidog, Boris Johnson, a llywodraethau'r byd i gydweithio i sicrhau bod y cynlluniau i ailgodi ar ôl argyfwng y coronafeirws yn mynd i'r afael â thlodi ac anghyfiawnder, yn helpu i atal argyfyngau hinsawdd a byd natur, ac yn darparu brechlynnau a gofal iechyd i bawb?**

Tynnwch lun ohonoch chi'ch hunan yn y man lle rydych yn gweddïo, yn codi llaw ar y camera neu gwnewch siâp llaw â phethau y dewch o hyd iddynt yn eich llecyn awyr agored a thynnu llun ohoni. Yna postiwch eich llun ar y cyfryngau cymdeithasol gyda'r hashnod **#WaveOfHope**, a chewch eich ychwanegu at oriel ddigidol gyda llawer o bobl eraill sy'n galw am y weithred bwysig hon. Caiff y lluniau eu harddangos yng nghynadleddau'r G7 a COP26. Ymgyrch greadigol yw hon: beth am ychwanegu neges bersonol o obaith neu weddi neu air a glywsoch yn ystod eich amser gweddi at eich post? Os bydd miloedd ohonom yn ymuno, ni fydd y Prif Weinidog yn gallu anwybyddu ein galwadau am newid arwyddocaol.

Gallwch bostio ar Facebook, Instagram neu Twitter, neu lwytho'ch llun i'r wefan, gan gofio ychwanegu **#WaveOfHope**. Mae rhagor o wybodaeth, a ffyrdd eraill o gymryd rhan gartref neu yn yr eglwys, i'w gweld yn **tearfund.org/wave**

**tearfund.org**
Tearfund Cymru, Salem Chapel, Salem Lane, Church Village, CF38 1PT, Cymru
+44 (0)20 3906 3906 campaigns@tearfund.org @TearfundAct /Tearfund

Registered office: Tearfund, 100 Church Road, Teddington, TW11 8QE. Registered in England: 994339. A company limited by guarantee. Registered Charity No. 265464 (England & Wales) Registered Charity No. SC037624 (Scotland)



tearfund